

# Diweddariad ar y Cynnydd Tuag at Ganolfan Iechyd a Lles Maesteg

***Tachwedd 2025.***

## Dyfodol Iach Maesteg

Yn ein cylchlythyr cyntaf i blant a rhieni lleol, roedden ni eisiau manteisio ar y cyfle hwn i rannu rhywfaint o newyddion cadarnhaol ynghylch dyfodol gwasanaethau iechyd a lles yng Nghwm Llynfi.

Efallai eich bod yn ymwybodol bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg wedi cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru i ystyried amrywiaeth o opsiynau sy'n edrych ar y ffordd orau y gallwn ddiwallu anghenion iechyd a lles hirdymor holl drigolion Cwm Llynfi.

Yn dilyn gwaith helaeth ar draws Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, ac wedi'i lywio gan adborth cymunedol o'n digwyddiadau cyhoeddus yn 2023, rydym yn gwybod eich bod am i ni ddarparu'r gwasanaethau canlynol yng Nghwm Llynfi yn y dyfodol:

- Canolfan Gofal Brys ar gyfer mân anafiadau a salwch, gan gynnwys gwasanaethau pelydr-x ac uwchsain
- Gwasanaethau gofal sylfaenol wedi'u hehangu
- Adran Cleifion Allanol wedi'i chryfhau gydag ystod ehangach o arbenigeddau, gan gynnwys llawdriniaeth fach
- Hwb Plant a Theuluoedd, a fydd yn cynnwys Hwb Iechyd Menywod a gwasanaethau iechyd plant haws eu cyrraedd
- Gwasanaethau Iechyd Meddwl Cymunedol
- Timau iechyd ac awdurdod lleol integredig sy'n darparu gwasanaethau i oedolion a phlant
- Mannau cymunedol ar gyfer darparu gwasanaethau iechyd a lles a gyflwynir gan y Trydydd Sector, gan gynnwys elusennau a grwpiau plant, Mental Health Matters a Chyngor ar Bopeth, ymhlith eraill.

Yn fyr, a thrwy gydweithio'n agos â Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a phartneriaid eraill, ein nod yw darparu mwy o wasanaethau iechyd a lles plant a theuluoedd yng Nghwm Llynfi.

Darperir mwy o fanylion yn ein  Cwestiynau Cyffredin diweddaraf (diweddarwyd Hydref 2025).

Y cwestiwn allweddol yr ydym yn ei ystyried nawr yw ble y gallwn ddarparu'r gwasanaethau hyn orau mewn ffordd sydd nid yn unig yn cynrychioli'r gwerth gorau am arian cyhoeddus, ond sy'n cynyddu nifer a mathau'r gwasanaethau y gallwn eu darparu i'r eithaf.

Mae'r posibiliadau sy'n cael eu hystyried yn cynnwys:

• Datblygu cyfleuster pwrpasol ar safle amgen posibl ger Heol Ewenny, Maesteg;

• Opsiynau ar safle presennol Ysbyty Maesteg; gan ystyried yr heriau sylweddol a amlygwyd o ran cost a dichonoldeb, oherwydd cyflwr a chyfluniad yr adeiladau a'r safle.

Ar hyn o bryd, rydym am bwysleisio nad oes unrhyw benderfyniad wedi'i wneud a'n bod yn disgwyl gallu penderfynu sut orau i fwrw ymlaen tua Pasg 2026.

## Ymgysylltu â'n Cymunedau

Cyn y pwynt penderfynu hwnnw, rydym am ymgysylltu â chymaint o bobl â phosibl i drafod dyfodol iechyd a lles yng Nghwm Llynfi, gan gynnwys trafod yr opsiynau safle sydd ar gael i ni.

Os ydych chi'n rhan o unrhyw grwpiau lleol a hoffai gyfarfod â ni i drafod y diweddariadau hyn, ateb cwestiynau a chlywed barn eich grŵp lleol, cysylltwch â ni yn: CTM.HealthyFuturesMaesteg@wales.nhs.uk.

## Rhagor o wybodaeth

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, neu geisiadau am ragor o wybodaeth cyn ein diweddariad nesaf, mae croeso i chi gysylltu drwy CTM.HealthyFuturesMaesteg@wales.nhs.uk.

**Dyddiad y briff nesaf – Mawrth 2026**

CREU IECHYD
CREATING HEALTH
GWELLA GOFAL
IMPROVING CARE
YSBRYDOLI POBL
INSPIRING PEOPLE
CYNNAL EIN DYFODOL
SUSTAINING OUR FUTURE

#DyfodolLachMaesteg
#HealthyFuturesMaesteg